# Lliwiau

Mae llawer o liwiau hardd yn y byd
Rhai llachar, rhai disglair, dwi'n hoffi nhw i gyd
Lliwiau tywyll, rhai golau, neu gymysgedd o liw
Mae'n anodd i mi ddewis fy hoff liw.

Porffor yw lliw'r ysgytlaeth blas llus.
Mae'r mafon pinc yn fy ngwneud i'n hapus
Efallai'r un glas, blas gwm cnoi swigen
yw'r ddiod flasus dwi wir ei angen?

Oren yw lliw'r ysgytlaeth orennau
Banana melyn yw un o'm hoff flasau
Mae'r un lliw gwyrdd yn blasu o giwi…
Byddai sbrowts yn well os ofynnwch i fi!

Mae llawer o liwiau hardd yn y byd
Rhai llachar, rhai disglair, dwi'n hoffi nhw i gyd
Lliwiau tywyll, rhai golau, neu gymysgedd o liw
Mae'n anodd i mi ddewis fy hoff liw.

**Geirfa / Vocabulary: lliwiau a ffrwythau/llysiau / colours and fruit/veg**

Ffrwythau (Fruit) a Llysiau (Veg)

| | |
|---|---|
| Lliwiau | (Colours) |
| tywyll | (dark) |
| llus | (blueberries) |
| golau | (light) |
| mafon | (raspberries) |
| porffor | (purple) |
| oren | (orange) |
| pinc | (pink) |
| banana | (banana) |
| glas | (blue) |
| giwi (ciwi) | (kiwi) |
| oren | (orange) |
| sbrowts | (sprouts) |
| melyn | (yellow) |
| gwyrdd | (green) |
| llachar / disglair | (bright) |

**Geirfa gyffredinol / General vocabulary:**

| | |
|---|---|
| llawer | (many) |
| hardd | (beautiful) |
| byd | (world) |
| gymysgedd (cymysgedd) | (mixture) |
| anodd | (difficult) |
| dewis | (choose) |
| ysgytlaeth | (milkshake) |
| gwm cnoi swigen | (bubble gum) |
| ddiod (diod) | (drink) |
| flasus (blasus) | (tasty) |
| flasau (blasau) | (tastes) |

**Patrymau Iaith / Language Patterns**

| | |
|---|---|
| Dwi'n hoffi … | (I like …) |
| Fy hoff liw … | (My favourite colour …) |
| Mae'n anodd … | (It's difficult …) |

© 2025 S4C